

Technegau Llinynnol

Vibrato: Dyma dechneg a ddefnyddir bron o hyd gan offerynwyr cyfoes i greu sain fwy cynnes a mynegiannol. Mae'r bys a ddefnyddir i chwarae'r nodyn yn symud nôl ac ymlaen er mwyn newid y traw rhyw ychydig bach. Gall y chwaraewr amrywio cyflymder a lled y vibrato. Ambell waith gofynnir i chwaraewyr berfformio '*senza vibrato*' (heb vibrato) am sain fwy oeraidd.

Legato/ llithriadau: chwarae nodau yn llyfn; gall yr effaith fod hyd yn oed yn fwy llyfn drwy chwarae sawl nodyn ar un bwa. Gall offerynnau llinynnol hefyd chwarae nodau sy'n para'n hir iawn.

Esiampyl: Mendelssohn Triawd yn D leiaf - Andante con moto tranquillo

https://soundcloud.com/galos_trio/08-mendelssohn-piano-trio-in-d

Fibich – Poème

https://soundcloud.com/galos_trio/04-fibich-poeme

Staccato: Nodau byr y gall offerynnau llinynnol chwarae ar y tannau (martelé), neu oddi ar y tannau (spiccato/ y bwa'n bownsio)

Esiampyl: Frank Bridge – Hornpipe

https://soundcloud.com/galos_trio/06-bridge-hornpipe

Pizzicato: Plycio'r tannau gydag un o'r dwylo- yn arferol llaw'r bwa.

Example: Tomo y Obligo (y sielo ar y dechrau)

https://soundcloud.com/galos_trio/09-gardel-arr-meredith-tomo-y

Gwasgiad Dwbl: Chwarae dau nodyn yr un pryd ar dannau cyfagos - gellir chwarae cordiau o 3 neu 4 nodyn, ond rhaid i'r nodau fod ar draws y tannau.

Effeithiau Arbennig:

Snap/Bartok Pizzicato: Plycio'r tant yn galed iawn fel ei bod yn taro'r offeryn (gall y ddau offeryn wneud hyn, ond y sielo sydd fwyaf effeithiol gan fod y tannau'n hirach).

Glissando: Lithro'r bys ar hyd tant gan achosi nodyn i ddisgyn neu godi.

Col legno: Chwarae gyda phren y bwa.

Sul Tasto: Chwarae dros fwrdd y bysedd am sŵn tyner iawn.

Sul Ponticello: Chwarae ar neu'n agos iawn at y bont am sain oeraidd / garw.

Tremolo: Symud y bwa mor gyflym â phosib am effaith o grynu, neu newid yn gyflym rhwng dau nodyn sydd a mwy na chyfwng o 2^{ail} rhyngddynt.

Trilio: Symud yn gyflym iawn rhwng dau nodyn sydd â chyfwng o 2^{ail} rhyngddynt.

Mudydd: Dyfais sy'n clampio ar y bont er mwyn creu sain mwy tynner.

Harmonigau: Creu sain fel sŵn chwiban. Mae yn ddau fath:

Harmonig naturiol: sy'n creu nodyn sydd un neu ddwy wythfed yn uwch na'r tant agored.

Harmonig ffals: yn swnio dwy wythfed yn uwch na'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu; gellir chwarae alaw fel hyn.

Technegau Piano:

Ystod eang iawn: o nodau isel iawn i nodau uchel dros ben.

Y Pedal Cynnal: yn achosi'r nodau i ganu 'mlaen ar ôl i'r allwedd gael ei rhyddhau.

Pedal Una Chorda: Yn gwanychu dwy o'r tannau ar gyfer bob nodyn gan wneud y sain yn fwy tyner.

Y defnydd o arpeggio: Creu effaith arbennig drwy chwarae nodau unigol cordiau yn gyflym, un ar ôl y llall, ar un neu ddwy law.

Cordiau: Gellir chwarae hyd at 10 nodyn yr un pryd, ond os ydynt yn rhy bell ar wahân bydd rhaid chwarae'r nodau un ar ôl y llall.

Pob offeryn:

- Ystod deinameg *ppp - fff*
- Gellir chwarae'n unsain neu mewn wythfedau. **Gwrandewch ar Driawd Gabriel Fauré - y feiolin a'r sielo yn unsain**
https://youtu.be/rj0ulCVf_7w o 2'54''
- Nodau llyfn neu ar wahân
- Ail adrodd nodau'n gyflym

Gwrando ar Driawd Piano Galos:

Youtube: https://www.youtube.com/channel/UCrH8NLAhHgR7Aq-ovtY_-2g

Sound cloud: https://soundcloud.com/galos_trio

Triawdau Piano eraill;

James Macmillan – Triawd Piano Rhif 2 (ailadrodd nodau, glissando, pizzicato, harmonigau ffals)

<https://youtu.be/Rx4Cj0naKJ4>

Johanna Doderer – Cyfansoddwr yn siarad am ysgrifennu i driawd piano

https://youtu.be/VPSu_jqY_Hg

Triawd Piano Galos